OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 653

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020

**Datgymhwyso rheoliad 9 o Reoliadau mis Ebrill 2020 mewn perthynas â chyfarfodydd penodol**

**2.** Yn Rheoliadau mis Ebrill 2020, yn rheoliad 9, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) y gofyniad—

(i) o dan adran 115 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan adran 114 o'r Ddeddf honno;

(ii) o dan adran 115B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan adran 114A o'r Ddeddf honno;

(iii) o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**) i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan yr adran honno gan bennaeth gwasanaeth taledig;

(iv) o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan yr adran honno gan swyddog monitro neu ddirprwy i swyddog monitro;

(v) o dan adran 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan yr adran honno gan swyddog monitro neu ddirprwy i swyddog monitro;

(vi) o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**3**) i ystyried mewn cyfarfod adroddiad o dan adran 22 o'r Ddeddf honno, neu argymhelliad o fewn adran 25(2) o'r Ddeddf honno;

(b) unrhyw ofyniad i gynnal cyfarfod cyn gynted ag y bo'n ymarferol (sut bynnag y mynegir y gofyniad hwnnw)."

(**1**) 1988 p. 41.
(**2**) 1989 p. 42.
(**3**) 2004 p. 23.